

Clinical Services Department

	Gweithredu :	Person :	Dyddiad Adolygu :	Cwblhawyd :	Sylwadau :
1	Nid oedd y Protocolau Meddygol yn cyfeirio'n benodol at y clinig	Helen Woodley Andrea Flowers	21 May 2014	22 May 2014	Mae'r Protocolau Meddygol fel arfer yn cael eu cadw ar y Fewnwyd fel eu bod ar gael i'r holl staff eu gweld. Mae copi caled wedi ei gynhyrchu ar gyfer y clinig a thudalen flaen bwrpasol wedi ei chreu.
2	Mae arolygwyr wedi argymhell bod staff y clinig yn ymgymryd â hyfforddiant rheoli data a chyfrinachedd.	Helen Woodley	Amherthnasol	Yn parhau	Mae pob aelod newydd o staff yn mynd ar gwrs hyfforddiant cynefino am 3 diwrnod i gael hyfforddiant cychwynnol ar gofnodion meddygol, rheoli data a chyfrinachedd. Mae'n ofynnol hefyd i'r holl staff ddarllen y Polisi'au Corfforaethol canlynol pan gânt eu hadolygu neu o leiaf unwaith y flwyddyn: "Polisi Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data" a "Polisi Rheoli Cofnodion". Yn ogystal mae'r cwmni wedi cyflwyno modiwl newydd yn ei raglen hyfforddiant electronig ar gyfer 2014, sy'n dwyn y teitl "Rheoli Data."

Clinical Services Department

3	Mynegodd yr arolygwyr bryderon ar adeg yr ymweliad nad oedd y system gwresogi dŵr wedi bod yn gweithio ers wythnos.	Helen Woodley Andrea Flowers Laura Norton Landlord	28 May 2014	22 May 2014	Tynnwyd y mater i sylw'r Adran Eiddo yn unol â Pholisi'r Cwmni cyn cael ei gyfeirio wedyn i'r Landlord er mwyn ei drwsio. Archebwyd darn er mwyn cwblhau'r gwaith trwsio angenrheidiol. Cwblhawyd Asesiad Risg gan Reolwr y Clinig yn dilyn trafodaeth gyda'r Nyrs Rheoli Heintiau. Y staff i gyd i lanhau eu dwylo gyda diheintydd alcohol yn ogystal â sebon a dŵr pan nad oedd dŵr poeth ar gael. Nid oedd triniaethau o fewn yr amserlen yn ystod y cyfnod pan nad o oedd dŵr poeth ar gael ar y safle, felly ychydig o ymwneud a fu gyda'r cleifion, ac mae glanhau'r dwylo ag alcohol yn ffordd effeithiol o sicrhau glendid dwylo ym mhob sefyllfa glinigol lle nad oes cyfleusterau golchi dwylo ar gael.
---	---	---	-------------	-------------	--